BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Ystadegau am blant ag anableddau yng Ngogledd Cymru

Tachwedd 2025

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council | Cyngor Gwynedd Council | Conwy County Borough Council | Sir Ddinbych Denbighshire County Council | Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council | Wrexham County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cysylltwch â ni

Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

Ebost: hcargc@sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 01824 712432

Gwefan: www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/ystadegau/

Cynnwys

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Nodiadau ar y data – cyffredinol 4

Nodiadau ar y data – data am anabledd 5

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc yn y boblogaeth yn lleihau 7

Mae gan o leiaf 8,100 o blant yng Ngogledd Cymru anabledd 9

Mae nifer y plant ag anableddau yn cynyddu 10

Roedd bron i 800 o blant ag anableddau yn derbyn gofal a chymorth gan gynghorau Gogledd Cymru yn 2022/23 14

Mae tua dwy ran o dair o blant ag anableddau yn fechgyn 15

Mae tri o bob pump o blant ag anableddau rhwng 10 a 15 oed 16

Y prif gyflyrau ar gyfer plant sy'n hawlio budd-daliadau anabledd yw anhwylderau ymddygiadol ac anawsterau dysgu 17

Mae gan tua un o bob deg o blant sy'n anabl anghenion cymhleth 20

Efallai y bydd nifer y plant anabl yn cynyddu yn y dyfodol, hyd yn oed os bydd nifer y plant yn y boblogaeth yn lleihau 22

Ffynonellau data a ystyriwyd gennym ond na ddefnyddiwyd gennym 23

Atodiad 1: ystadegau ar gyfer ardaloedd iechyd lleol a clystyrau gofal sylfaenol 25

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Cynhyrchwyd y darn hwn o waith gan Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2025. Bydd yn ffurfio rhan o'r rhaglen o ddiweddariadau i'r Dadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth a bydd copi ar gael ar wefan Bwrdd Partneriaeth. Ein nod yw adolygu'r bwletin hwn bob blwyddyn ac ychwanegu data ac ymchwil newydd pan fydd ar gael.

Ni ddylid darllen yr adroddiad hwn ar ei ben ei hun. Mae llawer o waith da yn digwydd ledled Gogledd Cymru i gefnogi plant ag anableddau a'u teuluoedd a darparu gwasanaethau yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae gwefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn. Heb y cyd-destun hwnnw, dim ond maint y problemau a wynebir y mae'r data a'r ymchwil a gyflwynir yma yn eu dangos ac nid yw'n cynrychioli bywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn llawn na phwysigrwydd pethau sy'n anodd eu cyfrif fel cariad, cysylltiad a chynhwysiant.

Rydym hefyd yn cyhoeddi chwiliadau llenyddiaeth a chrynodebau tystiolaeth eraill ar ein gwefan sy'n cynnwys pynciau sy'n ymwneud â phlant ag anableddau a'u teuluoedd.

Nodiadau ar y data – cyffredinol

Oherwydd ein bod yn edrych ar ardaloedd chwe awdurdod unedol ac eisiau gwneud cymariaethau mor deg â phosibl, rydym yn defnyddio data sydd ar gael ar sail safonol ar gyfer pob maes. Mae hyn yn golygu ein bod wedi defnyddio ffynonellau data a gyhoeddwyd yn swyddogol yn bennaf. Efallai na fydd y rhain yn rhoi darlun llawn o'r hyn sy'n digwydd mewn ardal, a gallant ddangos patrymau gwahanol i ddata gweinyddol a gedwir yn lleol. Efallai y bydd data gweinyddol ar gael yn uniongyrchol gan gynghorau lleol neu ddarparwyr gwasanaethau os ydych am edrych ar ddarlun llawnach ar gyfer eich ardal.

Lle bo'n bosibl, rydym wedi edrych ar y data diweddaraf a darparu cymhariaeth â'r hyn a oedd yn digwydd 10 mlynedd yn flaenorol, i helpu i fesur newidiadau dros amser. Nid yw'r cyfnodau amser a gaiff eu mesur gan wahanol ffynonellau data yn cyd-fynd. Mae gwahanol ffynonellau'n defnyddio gwahanol amrediad oedran i ddiffinio 'plentyn' neu 'berson ifanc' hefyd. Lle bo'n bosibl, mae unrhyw nodweddion (er enghraifft, sylfaen boblogaeth wrth gyfrifo canran) wedi'u paru â'r ffynhonnell ddata.

Mae amcangyfrifon o niferoedd poblogaeth wedi'u hadolygu yn dilyn rhyddhau canlyniadau o Gyfrifiad 2021, felly mae'r hyn yr ydym yn ei ddeall am dueddiadau'r boblogaeth wedi newid ers i Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 gael ei gyhoeddi. Mae hyn yn golygu y bydd rhai rhifau, cyfraddau a chanrannau yn edrych yn wahanol iawn i'r hyn a welwyd o'r blaen, ac ni ystyrir bod rhai ffynonellau data yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen yn ddibynadwy bellach (yn benodol, amcanestyniadau a rhagolygon sy'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol).

Mae data ar gael ym mhrif gorff yr adroddiad ar lefel Gogledd Cymru ac awdurdod lleol. Mae rhai o'r dangosyddion ar gael ar lefel clwstwr gofal sylfaenol a chyflwynir y rhain yn yr atodiad.

Nodiadau ar y data – data am anabledd

Nid oes cofrestr gyflawn o anabledd na salwch ac felly dibynnwn ar amryw ffynonellau data procsi. Ceir gwahanol ddiffiniadau yn yr hyn y mae'r ffynonellau hynny'n ei gyfrif ac amrywiant mawr ym manylder y dadansoddiadau o'r boblogaeth o blant â salwch neu anabledd yng Ngogledd Cymru. Mae'n werth bwrw golwg ar bob ffynhonnell, serch hynny, i gael dealltwriaeth fwy trylwyr o'r sefyllfa.

Y Cyfrifiad yw'r mesur mwyaf cyflawn a dibynadwy sydd gennym o anabledd gan ei fod yn casglu gwybodaeth gan bawb sydd fel arfer yn byw yn y Deyrnas Unedig. Fel ag yn 2011, gofynnodd Cyfrifiad 2021 i bobl a oedd ganddynt gyflwr iechyd neu salwch hir dymor, a oedd wedi para neu a oedd yn debygol o bara 12 mis neu fwy.

Roedd geiriad y cwestiwn ychydig yn wahanol i'r cwestiwn yn 2011, er mwyn casglu data sy'n fwy cyson â'r diffiniad o anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n diffinio person anabl fel rhywun sydd ag amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hir dymor ar ei allu i wneud gweithgareddau pob dydd.

Rhannwyd y cwestiwn yn ddwy ran. Gofynnwyd, yn gyntaf, a oedd gan yr unigolyn gyflwr iechyd neu salwch corfforol neu feddyliol hir dymor, ac yn ail i ba raddau yr oedd yn cyfyngu ar ei weithgareddau pob dydd. Mae ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hir dymor sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau pob dydd wedi'u diffinio fel pobl anabl.

Mae'r ymagwedd a ddefnyddir yn y Cyfrifiad yn cyd-fynd â'r model meddygol o anabledd, sy'n diffinio pobl fel pobl anabl yn ôl eu hamhariad. Yn 2002, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y model cymdeithasol o anabledd. Mae'r model

hwn yn amlinellu ffordd wahanol o ystyried anabledd, yn lle diffinio pobl fel pobl anabl yn ôl eu hamhariad (fel y gwna'r model meddygol o anabledd), ystyrir bod pobl ag amhariadau yn cael eu hanablu gan rwystrau ffisegol, agweddol a sefydliadol sy'n cael eu creu gan gymdeithas.

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc yn y boblogaeth yn lleihau

Data sylfaenol am y boblogaeth yw'r sail ar gyfer ein dealltwriaeth o unrhyw newid yn y niferoedd, cyfraddau a chanrannau y byddwn yn bwrw golwg arnynt yng nghyd-destun y problemau gofal cymdeithasol a lles y mae gennym ddiddordeb ynddynt.

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf (2024) yn nodi bod cyfanswm nifer y bobl 0 i 15 oed yng Ngogledd Cymru yn oddeutu 116,750.

Ffigur 1: nifer y bobl oedran 0 i 15 yn awdurdodau lleol Gogledd Cymru

Ardal	2024 nifer	2024 canran	2014 nifer	2014 canran	Newid 2014-24
Ynys Môn	11,400	16.5%	12,100	17.3%	-700
Gwynedd	19,000	15.7%	20,550	17.1%	-1,550
Conwy	17,850	15.5%	18,900	16.3%	-1,000
Sir Ddinbych	17,050	17.3%	17,100	18.1%	-100
Sir y Fflint	26,850	17.2%	28,100	18.3%	-1,300
Wrecsam	24,650	17.8%	26,050	19.1%	-1,400
Gogledd Cymru	116,750	16.7%	122,750	17.8%	-6,000

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm. Mae'r ganran o gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn gyffredinol, mae nifer y plant a phobl ifanc yn y boblogaeth wedi bod yn gostwng ar draws Gogledd Cymru yn y degawd diwethaf. Ym mhob ardal mae plant a phobl ifanc hefyd yn ffurfio cyfran lai o'r boblogaeth yn 2024 nag yn 2014. Mae nifer y plant a phobl ifanc 0 i 15 oed yng Ngogledd Cymru wedi gostwng tua -6,000 yn y cyfnod hwnnw.

Mae'r gyfran o blant ym mhoblogaeth Gogledd Cymru'n weddol fach at ei gilydd o gymharu â chyfartaledd Prydain Fawr o 18.2%.

Bu gostyngiad yn nifer y genedigaethau a'r cyfraddau geni ymhob ardal awdurdod lleol rhwng 2014 a 2024 ac mae'r tueddiad wedi bod ar i lawr ers y 1970au. Mae'r cyfraddau geni'n is na'r lefel naturiol ar gyfer adnewyddu'r boblogaeth ledled Gogledd Cymru.

Mae allfudiad net oedolion ifanc mewn rhai ardaloedd wedi cael effaith ar nifer y plant hefyd, gan ei fod yn lleihau nifer y menyw o oed cael plant yn y boblogaeth.

Mae'r rhain yn dueddiadau sy'n debygol o barhau yn y dyfodol.

Mae gan o leiaf 8,100 o blant yng Ngogledd Cymru anabledd

Yng Ngogledd Cymru roedd tua 8,100 o bobl 15 oed neu iau a nododd eu bod yn anabl yng Nghyfrifiad 2021 – tua 4,790 o blant y cyfyngwyd ychydig ar eu gweithgareddau bob dydd a thua 3,310 y cyfyngwyd llawer ar eu gweithgareddau.

Ffigur 2: plant 0 i 15 oed ag anabledd yng Ngogledd Cymru, 2021

Ardal	Pob plentyn anabl	Gweith-gareddau ychydig yn gyfyngedig	Gweith-gareddau yn gyfyng-edig iawn	Pob plentyn anabl	Gweith-gareddau ychydig yn gyfyngedig	Gweith-gareddau yn gyfyng-edig iawn
Ynys Môn	700	420	280	6.0%	3.6%	2.4%
Gwynedd	1,020	630	400	5.3%	3.2%	2.0%
Conwy	1,440	840	600	7.8%	4.6%	3.3%
Sir Ddinbych	1,440	800	630	8.5%	4.7%	3.7%
Sir y Fflint	1,800	1,110	690	6.6%	4.0%	2.5%
Wrecsam	1,700	990	710	6.8%	4.0%	2.9%
Gogledd Cymru	8,100	4,790	3,310	6.8%	4.0%	2.8%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Canran yw'r cyfanswm o'r boblogaeth rhwng 0 a 15 oed yn yr ardal honno.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae hyn yn 6.8% o blant 0 i 15 oed yng Ngogledd Cymru. Mae hyn ychydig yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan, sef 6.3%. Dywedodd 2,600 o blant eraill yng Ngogledd Cymru (2.2%) fod ganddynt gyflwr iechyd neu iechyd meddwl hirdymor nad oedd yn effeithio ar eu gweithgareddau dyddiol ac nad oedd yn cael ei gydnabod fel anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Y Cyfrifiad yw'r mesur mwyaf cyflawn a dibynadwy sydd gennym o anabledd gan fod gwybodaeth yn cael ei chasglu gan bawb sydd fel arfer yn byw yn y Deyrnas Unedig. Mae'r data bellach yn bedair blwydd oed, fodd bynnag, ac ni fydd yn cael ei ddiweddaru tan y cyfrifiad nesaf yn 2031, felly mae angen i ni edrych ar ffynonellau eraill am wybodaeth fwy cyfredol.

Y ffynhonnell ddata fwyaf helaeth nesaf yw ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar hawlwyr budd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl. Dyma hefyd y ffynhonnell fwyaf cyfredol sydd ar gael ac mae'n cael ei diweddaru bob tri mis. Mae'r data hwn ar gyfer

pob plentyn 0 i 15 oed sydd wedi gwneud hawliad am fudd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl ac wedi cael eu derbyn fel rhai sy'n gymwys i'w cael. Gan nad yw pob plentyn â salwch ac anableddau yn hawlio budd-daliadau, mae'n debygol o fod yn dan-gyfrif o gyfanswm nifer y plant ag anableddau yn y boblogaeth gyfan ar y pryd. Yn gyffredinol, caiff hawlwyr eu symud i fudd-daliadau Taliadau Annibyniaeth Personol o 16 oed ymlaen.

Ffigur 3: cymharu data Cyfrifiad a Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant ag anabledd yng Ngogledd Cymru, 2021

Ardal	Cyfrifiad (Mawrth 2021)	Lwfans Byw i'r Anabl (Chwefror 2021)	Gwahaniaeth nifer	Gwahaniaeth canran
Ynys Môn	700	480	-230	-32.1%
Gwynedd	1,020	730	-300	-28.9%
Conwy	1,440	1,060	-380	-26.3%
Sir Ddinbych	1,440	1,100	-340	-23.5%
Sir y Fflint	1,800	1,290	-510	-28.2%
Wrecsam	1,700	1,360	-340	-20.0%
Gogledd Cymru	8,100	6,010	-2,090	-25.8%

Mae’r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw’n adio at y cyfanswm.

Ffynonellau: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Achosion Lwfans Byw i'r Anabl mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ar y dyddiad adrodd agosaf at Ddiwrnod y Cyfrifiad roedd tua 6,000 o blant yng Ngogledd Cymru â hawl i Lwfans Byw i'r Anabl – gwahaniaeth o'i gymharu â'r Cyfrifiad o tua -2,090 neu -25.8%.

Mae nifer y plant ag anableddau yn cynyddu

Rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021 (y data mwyaf cyflawn), cynyddodd nifer y plant ag anabledd yng Ngogledd Cymru tua 3,040.

Rhwng Chwefror 2015 a Chwefror 2025 (y data diweddaraf) cynyddodd nifer y plant sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl yng Ngogledd Cymru tua 4,070. Cynyddodd y gyfradd twf yn amlwg o 2021.

Mae'r cynnydd yn nifer y plant ag anableddau er gwaethaf gostyngiad cyffredinol yn nifer y plant yng Ngogledd Cymru dros y cyfnod.

Ffigur 4: newid mewn gwahanol fesurau o blant 0 i 15 oed ag anabledd yng Ngogledd Cymru, 2011 i 2025



Ffynonellau: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Achosion Lwfans Byw i'r Anabl mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ffigur 5: plant 0 i 15 oed ag anabledd yng Ngogledd Cymru, Cyfrifiadau 2021 a 2011

Ardal	Cyfrifiad 2021 nifer	Cyfrifiad 2021 cyfradd	Cyfrifiad 2011 nifer	Cyfrifiad 2011 cyfradd	Newid nifer	Newid canran
Ynys Môn	700	59.8	430	36.6	270	61.8%
Gwynedd	1,020	52.6	750	36.1	270	35.5%
Conwy	1,440	78.2	840	44.5	590	70.3%
Sir Ddinbych	1,440	84.9	750	44.1	690	92.8%
Sir y Fflint	1,800	65.8	1,130	39.5	670	59.6%
Wrecsam	1,700	68.4	1,150	44.7	550	47.5%
Gogledd Cymru	8,100	68.3	5,060	41.1	3,040	60.1%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r gyfradd fesul 1,000 o blant rhwng 0 a 15 oed ym mhoblogaeth yr ardal yn y cyfnod hwnnw.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae data cyfrifiad yn dangos bod cyfran y plant ag anabledd wedi cynyddu o 4.1% o'r holl blant yn 2011 i 6.8% yn 2021. Tyfodd y nifer a'r gyfradd ym mhob ardal awdurdod unedol.

Ffigur 6: plant 0 i 15 oed sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl yng Ngogledd Cymru, 2015 a 2025

Ardal	Chwefror 2025 nifer	Chwefror 2025 cyfradd	Chwefror 2015 nifer	Chwefror 2015 cyfradd	Newid nifer	Newid canran
Ynys Môn	760	67.1	370	30.3	400	108.7%
Gwynedd	1,060	55.5	610	29.7	450	73.0%
Conwy	1,490	83.5	760	40.3	730	96.1%
Sir Ddinbych	1,440	84.3	870	50.8	570	65.1%
Sir y Fflint	1,980	73.9	980	34.9	1,000	101.8%
Wrecsam	2,070	84.0	1,150	44.0	930	81.0%
Gogledd Cymru	8,800	75.4	4,730	38.6	4,070	85.9%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r gyfradd fesul 1,000 o blant rhwng 0 a 15 oed ym mhoblogaeth yr ardal yn y cyfnod hwnnw.

Ffynhonnell: Achosion Lwfans Byw i'r Anabl mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ym mis Chwefror 2025 (data diweddaraf) roedd 8,800 o blant rhwng 0 a 15 oed yng Ngogledd Cymru yn gymwys i hawlio budd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl. Mae'r niferoedd wedi bod ar duedd ar i fyny, ac yn cymharu â 4,730 ym mis Chwefror 2015. Roedd y gyfradd yn 2025 yn 75.4 fesul 1,000 o blant rhwng 0 a 15 oed, sef cynnydd o 38.6 fesul 1,000 o blant yn 2015.

Mae'r niferoedd a'r cyfraddau wedi cynyddu ym mhob ardal awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Ym mis Chwefror 2025, roedd y gyfradd yn amrywio o 84.3 fesul 1,000 o blant yn Sir Ddinbych i 55.5 yng Ngwynedd.

Roedd y gyfradd fesul 1,000 o blant yn uwch yng Ngogledd Cymru (75.4) nag yng Nghymru gyfan (71.2) neu na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (70.4). Fodd bynnag, mae plant yn gyfran lai o'r boblogaeth gyffredinol yng Ngogledd Cymru nag yng Nghymru neu Gymru a Lloegr.

Ffigur 7: cyfradd hawlydd Lwfans Byw i'r Anabl fesul 1,000 o blant 0-15 oed



Ffynhonnell: Achosion Lwfans Byw i'r Anabl mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r gwahaniaeth yn y data budd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl oherwydd cynnydd sylweddol yn y ddau gategori 'prif gyflwr anablu' mwyaf y gellir eu mesur gan y data – cynyddodd y categori anhwylderau ymddygiad 2,680 o achosion rhwng Chwefror 2015 a Chwefror 2025 a chynyddodd y categori anawsterau dysgu 1,450 o achosion (gweler yr adran 'Y prif gyflyrau ar gyfer plant sy'n hawlio budd-daliadau anabledd').

Mae'n debygol bod y ffynhonnell ddata hon yn dangyfrif o blant ag anableddau. Os oedd y bwlch rhwng nifer y plant sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl a'r nifer sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn y Cyfrifiad yr un fath ym mis Chwefror 2025 ag yr oedd ym mis Mawrth 2021, yna efallai bod yn agosach at 12,000 o blant yng Ngogledd Cymru sydd ag anabledd (gweler Ffigur 3: cymharu data Cyfrifiad a Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant ag anabledd yng Ngogledd Cymru, 2021).

Roedd bron i 800 o blant ag anableddau yn derbyn gofal a chymorth gan gynghorau Gogledd Cymru yn 2022/23

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023 roedd 790 o blant anabl yn derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngogledd Cymru (ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, StatsWales). Roedd hyn yn 22% o'r holl blant sy'n derbyn gofal a chymorth, a 0.6% o gyfanswm y boblogaeth o blant 0 i 17 oed yng Ngogledd Cymru – neu'r hyn sy'n cyfateb i 5.9 fesul 1,000 o blant yn y grŵp oedran hwnnw yn y rhanbarth. Roedd tua 17% o'r plant hyn (135) yn Blant sy'n Derbyn Gofal ac roedd tua 2% (15) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Ffigur 8: plant anabl 0-17 oed sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol yn awdurdodau lleol Gogledd Cymru

Ardal	2023	2013	Gwahaniaeth
Ynys Môn	70	85	-15
Gwynedd	270	220	50
Conwy	115	150	-35
Sir Ddinbych	75	60	15
Sir y Fflint	155	120	35
Wrecsam	105	100	5
Gogledd Cymru	790	735	55

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, StatsCymru

Mae nifer y plant anabl sydd wedi derbyn gofal a chymorth wedi amrywio dros y 10 mlynedd diwethaf, o uchafbwynt o 845 yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016 ac isafbwynt o 660 yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021. Mae gwahaniaethau clir rhwng awdurdodau lleol, a allai fod oherwydd gwahaniaethau mewn prosesau cofnodi neu gymhwyso trothwyon cymhwysedd.

Er bod y setiau data yn defnyddio diffiniadau gwahanol ac nad ydynt yn uniongyrchol gymharol – gan gynnwys cwmpasu grŵp oedran ychydig yn wahanol – mae nifer y plant anabl yng Ngogledd Cymru sy'n derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn cyfateb i tua 1 o bob 10 o'r plant a hawliodd fudd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl yn 2023. Mae yna lawer o resymau pam fod bwlch mor fawr rhwng y ddau rif – efallai nad oes angen cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ar blant a theuluoedd i helpu gyda'u hanableddau neu salwch penodol neu efallai eu bod yn derbyn yr holl gymorth sydd ei angen arnynt gan grwpiau a sefydliadau eraill y tu

allan i'r sector cyhoeddus er enghraifft, neu efallai nad yw pobl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael neu'n amharod i'w gael – ond mae'r anghydraddoldeb rhwng y ddau rif yn awgrymu y gallai fod mwy o blant a theuluoedd sydd angen cymorth nad ydynt yn ei dderbyn.

Mae tua dwy ran o dair o blant ag anableddau yn fechgyn

Mae pob mesur yn dangos mwy o blant gwrywaidd ag anableddau na merched, gyda chymhareb o tua dau fachgen i bob merch. Mae'r gymhareb hon wedi aros tua'r un fath dros y 10 mlynedd diwethaf. I gymharu, yn y boblogaeth gyfan dim ond ychydig o blaid bechgyn y mae'r gymhareb (mae mwy o fechgyn bach yn cael eu geni na merched bach) gyda bechgyn yn cyfrif am 51 allan o bob 100 o blant rhwng 0 a 15 oed.

Ffigur 9: cymharu dadansoddiad rhywedd plant ag anableddau yng Ngogledd Cymru ar gyfer gwahanol ffynonellau data



Canran yw'r holl blant yn y set ddata honno.

Mae cymariaethau rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021 yn dangos bod y rhaniad rhywedd hwn yn duedd hirdymor. Roedd 61.5% o blant â salwch hirdymor cyfyngol yn 2011 yn wrywod o'i gymharu â 61.8% yn 2021.

Mae tri o bob pump o blant ag anableddau rhwng 10 a 15 oed

Mae'r ffynonellau sydd gennym am oedran plant ag anableddau neu salwch yn dangos bod tuedd tuag at grwpiau oedran hŷn o'i gymharu â'r boblogaeth gyfan.

Mae'r grŵp oedran 10 i 15 oed yn cyfrif am tua 40% o blant 0 i 15 oed yn y boblogaeth gyfan. Mae'r grŵp oedran hwn yn cyfrif am gyfran llawer uwch o blant ag anableddau (tua 60%) ar gyfer y gwahanol ffynonellau data yr ydym wedi edrych arnynt. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad yw diagnosis o rai anableddau a salwch yn cael ei wneud nes bod plant yn hŷn. Mae'n debygol y bydd yr angen am ofal a chymorth hefyd yn cynyddu wrth i blant fynd yn hŷn, a fydd yn cynyddu nifer y bobl a allai gael eu cyfrif mewn cofrestrau neu sy'n gwneud cais am gymorth ariannol trwy'r system fudd-daliadau.

Er bod nifer y plant wedi newid ar gyfer pob un o'r mesurau hyn yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae'r strwythur oedran yn parhau i fod yn debyg iawn.

Ffigur 10: cymharu dadansoddiad oedran plant ag anableddau yng Ngogledd Cymru ar gyfer gwahanol ffynonellau data



Canran yw'r holl blant yn y set ddata honno.

Y prif gyflyrau ar gyfer plant sy'n hawlio budd-daliadau anabledd yw anhwylderau ymddygiadol ac anawsterau dysgu

Mae data budd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl yn cofnodi'r prif gyflwr anablu ar gyfer hawlwyr. Dim ond mewn un categori y cyfrifir plant (prif gyflwr anablu) felly nid oes unrhyw gategori yn gyfrif cyflawn o bobl â'r cyflwr hwnnw sy'n hawlio budd-daliadau. Fe'i dosbarthir yn bennaf yn ôl faint o gymorth sydd ei angen ar blentyn.

Mae ystadegau ynglŷn â phlant sy'n hawlio'r Lwfans Byw i'r Anabl yn dangos cynnydd yn y niferoedd o hawlwyr ymhob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn y degawd diwethaf. Mae hynny er gwaethaf gostyngiad yn y nifer o blant yn y boblogaeth yn yr un cyfnod.

Ym mis Chwefror 2025, roedd a wnelo'r rhan helaeth o lwyth achosion y Lwfans Byw i'r Anabl yng Ngogledd Cymru ag un o dri o brif gyflyrau sy'n anablu – anhwylderau ymddygiad (37% o'r achosion), anawsterau dysgu (35%) a syndrom gorginetig (9%). Er nad yw'n wir ymhob achos – a heb eithrio cyflyrau eraill – y categorïau hyn sydd fwyaf tebygol o gael eu defnyddio wrth gategoreiddio plant niwroamrywiol sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl.

Roedd 81% o'r holl hawlwyr yng Ngogledd Cymru'n perthyn i'r categorïau hyn ym mis Chwefror 2025, neu gyfanswm o 7,120 o blant, a oedd yn gynnydd o gymharu â 65% (3,080 o blant) fis Chwefror 2015. Cafwyd y cynnydd mwyaf yn y categori anhwylderau ymddygiad a oedd â phum gwaith cymaint o blant yn 2025 â deng mlynedd yn flaenorol (3,280 o achosion yn 2025 o gymharu â 600 yn 2015).

Ynghyd â'r cyflyrau hyn, clefydau niwrolegol a Diabetes Mellitus yw'r pum cyflwr anablu mwyaf cyffredin ar draws Gogledd Cymru ac ym mhob un o'r pum ardal Awdurdod Unedol. Yn Ynys Môn mae epilepsi yn y pumed safle ar y cyd. Mae Ffigur 12 yn dangos sut mae nifer y plant â'r deg cyflwr anablu mwyaf cyffredin ar gyfer Gogledd Cymru gyfan wedi newid yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

Efallai bod y twf arwyddocaol yn y categorïau anhwylderau ymddygiad ac anawsterau dysgu yn deillio o nifer o ffactorau yn hytrach na bod y cyflyrau hyn wedi dod yn fwy cyffredin – cynnydd mewn diagnosisau oherwydd gwell ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr meddygol a staff gofal, er enghraifft, mwy o blant â'r cyflyrau hyn yn byw yn y gymuned yn hytrach na sefydliadau meddygol neu ofal, neu fwy o deuluoedd a gofalwyr yn ceisio cymorth ar gyfer plant â'r cyflyrau dan sylw. Efallai y bydd angen mwy o waith i ddeall y newidiadau hyn.

Ffigur 11: prif gyflwr anablu plant 0-15 oed sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl, Chwefror 2025

Ardal	Anhwylder ymddygiadol	Anawsterau dysgu	Syndrom gorginetig	Clefydau niwrolegol	Diabetes Mellitus	Pob hawlydd
Ynys Môn	270	280	40	30	20	760
Gwynedd	360	400	70	30	30	1,060
Conwy	510	600	100	40	50	1,490
Sir Ddinbych	550	510	130	30	30	1,440
Sir y Fflint	730	650	230	60	60	1,980
Wrecsam	850	600	230	50	40	2,070
Gogledd Cymru	3,280	3,040	800	250	230	8,800

Ardal	Anhwylder ymddygiadol	Anawsterau dysgu	Syndrom gorginetig	Clefydau niwrolegol	Diabetes Mellitus	Pob hawlydd
Ynys Môn	35.1%	37.2%	5.1%	3.8%	2.1%	760
Gwynedd	34.3%	37.9%	6.9%	3.0%	3.2%	1,060
Conwy	34.4%	40.0%	7.0%	2.6%	3.1%	1,490
Sir Ddinbych	38.6%	35.7%	9.0%	2.3%	1.9%	1,440
Sir y Fflint	36.7%	32.8%	11.7%	3.2%	3.1%	1,980
Wrecsam	41.1%	29.0%	10.9%	2.4%	2.1%	2,070
Gogledd Cymru	37.2%	34.6%	9.1%	2.8%	2.6%	8,800

Mae’r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw’n adio at y cyfanswm.

Canran yw'r holl blant rhwng 0 a 15 oed sydd â hawl i fudd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl ac sy'n eu hawlio.

Ffynhonnell: Achosion Lwfans Byw i'r Anabl mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ffigur 12: y deg cyflwr anablu mwyaf cyffredin ar gyfer plant 0-15 oed sy'n gymwys i gael Lwfans Byw i'r Anabl yng Ngogledd Cymru



Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Achosion Lwfans Byw i'r Anabl mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae data hefyd ar gael am y math o anableddau a brofir gan blant sy'n derbyn gofal a chymorth gan gynghorau lleol. Mae'r categoreiddio hwn yn defnyddio ffordd wahanol o fesur anabledd yn ôl y problemau a wynebir yn hytrach na'r cyflyrau meddygol a brofir. O dan y mesur hwn gall plant gael mwy nag un math o anabledd felly gellir eu cyfrif fwy nag unwaith.

Rhwng 2013 a 2023 bu cynnydd amlwg yn nifer y plant; yn methu canfod y risg o berygl corfforol; ag anabledd lleferydd, clyw a golwg, ag anableddau ymataliaeth; a chyda anabledd cof. Mae hyn yn awgrymu bod gwasanaethau cymdeithasol yng

Ngogledd Cymru yn gweithio gyda mwy o blant ag anghenion corfforol cymhleth nag yn 2013, a'u bod yn ffurfio cyfran fwy o blant sy'n derbyn gofal a chymorth.

Ffigur 13: anableddau plant sy'n derbyn gofal a chymorth gan gynghorau lleol yng Ngogledd Cymru



Gall plant gael mwy nag un math o anabledd felly ni fydd y ffigurau'n cyfateb i'r cyfanswm. Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, StatsCymru

Mae gan tua un o bob deg o blant sy'n anabl anghenion cymhleth

Mae bod yn anabl gydag anghenion cymhleth neu gydfodol yn golygu y gallai fod angen cefnogaeth lefel uchel ar bobl i gyfathrebu, datblygu sgiliau newydd a byw'n fwy annibynnol.

Mae pobl anabl ag anghenion cymhleth yn tueddu i gael dau neu fwy o'r cyflyrau canlynol:

- Byddar neu nam ar y clyw
- Dall neu nam ar y golwg
- Anabledd dysgu
- Awtistiaeth

Amcangyfrifodd ymchwil a ryddhawyd yn 2022 gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol a'r elusen Sense fod gan tua 10% o bobl ag anableddau anghenion cymhleth. Defnyddiodd yr ymchwil ddata o Arolwg Adnoddau Teuluol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Os cymhwysir y gyfran hon i'r data sydd gennym ar gyfer Gogledd Cymru, mae'n awgrymu bod tua 810 o blant ag anableddau cymhleth yn y rhanbarth yn 2021.

Ffigur 14: amcangyfrif o nifer y plant rhwng 0 a 15 oed ag anableddau cymhleth yng Ngogledd Cymru, 2021

Ardal	Pob plentyn ag anableddau	Plant ag anableddau cymhleth
Ynys Môn	700	70
Gwynedd	1,000	100
Conwy	1,450	140
Sir Ddinbych	1,450	140
Sir y Fflint	1,800	180
Wrecsam	1,700	170
Gogledd Cymru	8,100	810

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynonellau: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Sense, Quantifying Complex Needs in the UK (dadansoddiad a gynhaliwyd gan National Centre for Social Research, 2022)

Amcangyfrif bras yw hwn, gan y byddai angen gwybodaeth fanwl am broffiliau oedran mewn gwahanol ardaloedd i gynhyrchu amcangyfrif mwy cywir, ac nid oes gennym y data hwnnw. Mae'n debyg hefyd bod y nifer wedi cynyddu yn unol â'r twf a welwyd gennym yn nifer y plant sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl ers 2021.

Efallai y bydd nifer y plant anabl yn cynyddu yn y dyfodol, hyd yn oed os bydd nifer y plant yn y boblogaeth yn lleihau

Nid yw data am dueddiadau'r dyfodol wedi'i ddiweddaru eto yn unol â data newydd o Gyfrifiad 2021. Bydd diwygiadau sylweddol i seiliau poblogaeth, rhagamcanion poblogaeth, a'r holl gyfraddau a thueddiadau a gyfrifir yn erbyn y poblogaethau hyn. Mae hyn yn golygu bod y rhagfynegiadau a ddefnyddiwyd gennym yn flaenorol am y newid yn nifer y plant ag anableddau dros yr 20 mlynedd nesaf bellach yn annibynadwy (gweler yr adran "Ffynonellau data a ystyriwyd gennym ond na ddefnyddiwyd gennym").

Fodd bynnag, cyn cynhyrchu rhagamcanion swyddogol (sydd i'w cyhoeddi ddiwedd 2025) gallwn wneud rhai rhagdybiaethau am dueddiadau'r dyfodol o'r data yr ydym eisoes wedi edrych arno. Dyma nhw:

- bydd nifer y plant yn y boblogaeth gyfan yn parhau i ostwng yn y degawd nesaf;
- gall nifer y plant sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl barhau i gynyddu ond mae angen gwell dealltwriaeth arnom o'r ffactorau sy'n sbarduno cynnydd yn y degawd diwethaf i wneud rhagfynegiad tymor hwy; a
- efallai y bydd cynnydd yng nghymhlethdod anghenion plant ag anableddau sy'n derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Ffynonellau data a ystyriwyd gennym ond na ddefnyddiwyd gennym

Arferai awdurdodau lleol yng Nghymru gadw cofrestr o'r bobl yr oeddent yn eu hadnabod yn eu hardal sydd ag anableddau dysgu a chofrestr ar wahân o bobl ag anableddau corfforol neu synhwyraidd. Gan eu bod yn gofrestrau gwirfoddol, roeddent yn dangyfrif sylweddol o bobl ag anableddau, ac yn cael eu gweinyddu'n wahanol gan wahanol gynghorau, sy'n gwneud cymariaethau ar draws y rhanbarth yn anodd. Daethpwyd â'r cofrestrau hyn i ben ym mis Mawrth 2022, ac ar y pryd roedd gan gofrestrau awdurdodau lleol Gogledd Cymru gyfanswm o 710 o blant 0 i 15 oed ar y gofrestr anableddau dysgu a 280 o blant 0 i 17 oed ar y gofrestr ar gyfer pobl ag anableddau corfforol/synhwyraidd. Efallai bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y ddwy gofrestr. Ar lefel Cymru, gostyngodd nifer y plant ar y cofrestrau hyn yn y 10 mlynedd blaenorol. Ar gyfer Gogledd Cymru, roedd y niferoedd yn amrywio (yn enwedig ar lefel awdurdod lleol) ond roeddent yn ymddangos ar duedd ychydig ar i lawr. Cafodd casglu data ar gyfer y cofrestrau hyn ei amharu gan bandemig Covid-19.

Mae set ddata ar gael hefyd drwy Borth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru sy'n darparu rhagfynegiad o nifer y plant â salwch hirdymor cyfyngol. Mae hyn yn gosod niferoedd llawer uwch nag unrhyw un o'r ffynonellau eraill, gan roi rhagfynegiad o 11,500 o blant a phobl ifanc ag unrhyw salwch hirdymor cyfyngol yng Ngogledd Cymru yn 2020. Dyma'r data a adroddwyd yn Asesiad Anghenion Poblogaeth 2022 (Tabl 12: Nifer a ragwelir o blant (0-17) â salwch hirdymor cyfyngol). Nid yw'r data hwn bellach yn cael ei ystyried yn gadarn, gan ei fod yn defnyddio rhagdybiaethau am newid poblogaeth sydd wedi'u diwygio'n sylweddol yn dilyn rhyddhau canlyniadau llawn Cyfrifiad 2021. Fe'i modelwyd o ddata arolwg, a defnyddiodd ddiffiniad llawer ehangach o anabledd ac afiechyd nag unrhyw ffynonellau data eraill.

Un ffynhonnell arall yr ydym wedi'i defnyddio yn y gorffennol fel dangosydd dirprwyol ar gyfer plant ag anableddau a salwch yw data o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC). Mae'r gofrestr ddata hon yn casglu gwybodaeth am blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a elwir weithiau hefyd yn anghenion addysgol arbennig (AAA). Nid yw'r data hwn bellach yn cael ei ystyried yn ddirprwy da ar gyfer cyfrif cyffredinol o blant ag anableddau neu salwch gan ei fod yn cynnwys pob plentyn sydd wedi cael datganiad ac yn cwmpasu llawer o anghenion dysgu na

fyddent yn cael eu hystyried yn anableddau. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r data yn y dyfodol i'n helpu i ddeall mathau o anabledd a salwch a byddwn yn edrych ar ba ddefnyddiau eraill y gallai'r data hwn eu cael ar gyfer ein dadansoddiad anghenion.

Atodiad 1: ystadegau ar gyfer ardaloedd iechyd lleol a clystyrau gofal sylfaenol

Ffigur 15: nifer y bobl oedran 0 i 15 mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru

Ardal	2024 nifer	2024 canran	2014 nifer	2014 canran	Newid 2014-24
Gogledd Cymru	116,750	16.7%	122,750	17.8%	-6,000
Ynys Môn a Gwynedd	30,400	16.0%	32,600	17.2%	-2,250
Conwy a Sir Ddinbych	34,900	16.4%	36,000	17.1%	-1,100
Sir y Fflint a Wrecsam	51,500	17.5%	54,150	18.7%	-2,650
Ynys Môn	11,000	16.6%	11,550	17.4%	-550
Arfon	10,600	16.5%	11,050	17.8%	-450
Canol a De Sir Ddinbych	7,150	16.3%	7,450	17.4%	-350
Dwyrain Conwy	8,700	16.0%	9,350	17.0%	-600
Gorllewin Conwy	8,900	15.1%	9,200	15.7%	-300
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	10,100	17.9%	10,550	19.0%	-500
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	6,200	15.2%	7,100	17.1%	-900
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	6,450	17.7%	6,750	19.0%	-300
De Meirionnydd	2,650	13.7%	2,900	15.1%	-300
De Sir y Fflint	9,400	16.6%	9,850	17.6%	-450
Gogledd Sir Ddinbych	10,500	18.0%	10,400	18.6%	100
De Wrecsam	8,500	17.2%	9,400	18.8%	-950
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	5,850	17.7%	6,150	18.5%	-300
Canol Wrecsam	10,850	18.1%	11,050	19.4%	-150

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r ganran o gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 16: plant 0 i 15 oed ag anabledd mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru, 2021

Ardal	Pob plentyn anabl	Gweithgareddau ychydig yn gyfyngedig	Gweithgareddau yn gyfyngedig iawn	Pob plentyn anabl	Gweithgareddau ychydig yn gyfyngedig	Gweithgareddau yn gyfyngedig iawn
Gogledd Cymru	8,100	4,790	3,310	6.8%	4.0%	2.8%
Ynys Môn a Gwynedd	1,720	1,050	670	5.5%	3.4%	2.2%
Conwy a Sir Ddinbych	2,870	1,640	1,230	8.1%	4.6%	3.5%
Sir y Fflint a Wrecsam	3,500	2,100	1,400	6.7%	4.0%	2.7%
Ynys Môn	690	410	280	6.1%	3.6%	2.5%
Arfon	560	330	230	5.2%	3.1%	2.2%
Canol a De Sir Ddinbych	420	250	170	5.9%	3.6%	2.4%
Dwyrain Conwy	770	430	340	8.5%	4.7%	3.8%
Gorllewin Conwy	650	400	250	7.1%	4.4%	2.7%
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	720	410	310	7.0%	4.0%	3.0%
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	360	230	120	5.5%	3.5%	1.9%
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	490	310	180	7.5%	4.8%	2.8%
De Meirionnydd	130	80	50	4.9%	3.1%	1.8%
De Sir y Fflint	540	360	180	5.6%	3.7%	1.9%
Gogledd Sir Ddinbych	1,040	560	480	9.9%	5.3%	4.6%
De Wrecsam	630	390	240	7.2%	4.5%	2.7%
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	380	230	150	6.5%	3.9%	2.5%
Canol Wrecsam	760	420	340	7.0%	3.9%	3.1%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Canran yw'r cyfanswm o'r boblogaeth rhwng 0 a 15 oed yn yr ardal honno.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 17: cymharu data Cyfrifiad a Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant ag anabledd mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru, 2021

Ardal	Cyfrifiad (Mawrth 2021)	Lwfans Byw i'r Anabl (Chwefror 2021)	Gwahaniaeth nifer	Gwahaniaeth canran
Gogledd Cymru	8,100	6,010	-2,090	-25.8%
Ynys Môn a Gwynedd	1,720	1,200	-520	-30.2%
Conwy a Sir Ddinbych	2,870	2,160	-720	-24.9%
Sir y Fflint a Wrecsam	3,500	2,650	-850	-24.2%
Ynys Môn	690	450	-240	-34.2%
Arfon	560	420	-140	-25.1%
Canol a De Sir Ddinbych	420	310	-110	-27.0%
Dwyrain Conwy	770	580	-190	-24.6%
Gorllewin Conwy	650	480	-170	-25.6%
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	720	520	-200	-27.4%
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	360	250	-110	-30.1%
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	490	380	-110	-22.8%
De Meirionnydd	130	90	-40	-29.5%
De Sir y Fflint	540	360	-180	-33.4%
Gogledd Sir Ddinbych	1,040	780	-260	-24.9%
De Wrecsam	630	450	-170	-27.5%
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	380	310	-70	-18.7%
Canol Wrecsam	760	650	-110	-14.1%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynonellau: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Achosion Lwfans Byw i'r Anabl mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ffigur 18: plant 0 i 15 oed ag anabledd mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru, Cyfrifiadau 2021 a 2011

Ardal	Cyfrifiad 2021 nifer	Cyfrifiad 2021 cyfradd	Cyfrifiad 2011 nifer	Cyfrifiad 2011 cyfradd	Newid nifer	Newid canran
Gogledd Cymru	8,100	68.3	41	41.1	3,040	60.1%
Ynys Môn a Gwynedd	1,720	55.3	36	36.3	540	45.1%
Conwy a Sir Ddinbych	2,870	81.4	44	44.3	1,280	80.8%
Sir y Fflint a Wrecsam	3,500	67.1	42	41.9	1,220	53.5%
Ynys Môn	690	60.8	420	37.4	260	62.0%
Arfon	560	52.4	410	36.8	150	36.8%
Canol a De Sir Ddinbych	420	59.3	270	35.5	160	58.4%
Dwyrain Conwy	770	85.0	450	49.3	310	69.2%
Gorllewin Conwy	650	71.3	380	40.2	270	71.0%
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	720	69.6	440	40.6	280	64.4%
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	360	54.5	250	34.3	100	41.4%
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	490	75.2	290	42.3	200	69.7%
De Meirionnydd	130	48.9	110	34.4	30	25.7%
De Sir y Fflint	540	56.0	360	35.7	180	51.0%
Gogledd Sir Ddinbych	1,040	99.5	510	49.7	530	104.5%
De Wrecsam	630	71.6	410	42.8	220	53.4%
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	380	64.9	270	43.6	110	39.3%
Canol Wrecsam	760	70.0	500	47.5	260	50.7%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r gyfradd fesul 1,000 o blant rhwng 0 a 15 oed ym mhoblogaeth yr ardal yn y cyfnod hwnnw.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 19: plant 0 i 15 oed sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru, 2015 a 2025

Ardal	Chwefror 2025 nifer	Chwefror 2025 cyfradd	Chwefror 2015 nifer	Chwefror 2015 cyfradd	Newid nifer	Newid canran
Gogledd Cymru	8,800	75.4	4,730	38.6	4,070	85.9%
Ynys Môn a Gwynedd	1,820	59.9	980	29.9	840	86.4%
Conwy a Sir Ddinbych	2,930	83.9	1,630	45.3	1,300	79.5%
Sir y Fflint a Wrecsam	4,050	78.7	2,130	39.3	1,930	90.6%
Ynys Môn	770	70.3	340	29.5	430	127.1%
Arfon	640	60.5	310	28.0	330	107.1%
Canol a De Sir Ddinbych	420	58.8	320	42.1	110	33.3%
Dwyrain Conwy	830	94.7	380	40.5	450	118.3%
Gorllewin Conwy	620	70.0	420	46.0	200	46.7%
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	780	77.7	310	29.3	470	152.6%
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	310	50.3	240	33.2	80	31.8%
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	560	86.9	270	40.3	290	106.3%
De Meirionnydd	120	43.8	80	26.5	40	49.4%
De Sir y Fflint	550	58.0	410	41.2	140	34.5%
Gogledd Sir Ddinbych	1,080	102.9	540	51.4	550	101.7%
De Wrecsam	670	79.1	470	50.4	200	41.4%
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	470	80.4	300	48.1	180	59.4%
Canol Wrecsam	970	89.7	410	37.3	560	137.0%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r gyfradd fesul 1,000 o blant rhwng 0 a 15 oed ym mhoblogaeth yr ardal yn y cyfnod hwnnw.

Ffynhonnell: Achosion Lwfans Byw i'r Anabl mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ffigur 20: amcangyfrif o nifer y plant rhwng 0 a 15 oed ag anableddau cymhleth mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru, 2021

Ardal	Pob plentyn ag anableddau	Plant ag anableddau cymhleth
Gogledd Cymru	8,100	810
Ynys Môn a Gwynedd	1,700	170
Conwy a Sir Ddinbych	2,850	290
Sir y Fflint a Wrecsam	3,500	350
Ynys Môn	700	70
Arfon	550	60
Canol a De Sir Ddinbych	400	40
Dwyrain Conwy	750	80
Gorllewin Conwy	650	60
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	700	70
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	350	40
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	500	50
De Meirionnydd	150	10
De Sir y Fflint	550	50
Gogledd Sir Ddinbych	1,050	100
De Wrecsam	650	60
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	400	40
Canol Wrecsam	750	80

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynonellau: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Sense, Quantifying Complex Needs in the UK (dadansoddiad a gynhaliwyd gan National Centre for Social Research, 2022)